# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4**

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Hydref 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

## (9:15 - 9:30 Rhag-gyfarfod)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(9:30 - 11:00)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Michael Kay - Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil - Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Etholiadau, Llywodraeth Cymru

Gareth McMahon - Uwch Gyfreithiwr y Llywodraeth - Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 1)

### 3.1 Llythyr at Llywodraeth Cymru - Asedau cymunedol

(Tudalennau 2 - 3)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.2 Llythyr at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip - Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin / Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

(Tudalennau 4 - 6)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Trafod y dystiolaeth

(11:00-11:30)

## 6 Cyllideb ddrafft 2024-25 - Y dull o graffu

(11:30-11:40) (Tudalennau 7 - 8)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**26 Hydref 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Asedau cymunedol | Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai | I'w nodi |
| Papur 2 | Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin/ Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip | I'w nodi |

Papur 1

Eitem 3.1

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

18 Hydref 2023

Annwyl Weinidogion,

**Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i asedau cymunedol**


Byddwch yn cofio bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cyhoeddi ei adroddiad ar asedau cymunedol ym mis Hydref 2022. Roedd amserlen weithredu benodol wedi'i chynnwys yn argymhellion un a dau o'r adroddiad, sef y dylid cymryd y camau dan sylw o fewn deuddeg mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Yn ogystal, roedd nifer o argymhellion eraill yn gysylltiedig ag argymhelliad 2.

Gan fod blwyddyn bellach wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r adroddiad, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu diweddariad ysgrifenedig ynghylch y cynnydd a wnaed wrth weithredu pob un o'r argymhellion.

Gwrthodwyd argymhelliad 14, sef y dylid sefydlu cronfa benodol yng Nghymru ar gyfer prosiectau tai cymunedol. Serch hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys manylion yn eich diweddariad ynghylch sut mae'r gwaith o archwilio ffrydiau ariannu eraill ar gyfer grwpiau tai a arweinir gan y gymuned yn mynd rhagddo. Roedd eich ymateb i'r argymhelliad hwn hefyd yn cyfeirio at y gwaith y mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ei wneud â sefydliad Cwmpas mewn perthynas â datblygu cynnig tai penodol a arweinir gan y gymuned, a hynny gan ddefnyddio'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys canlyniad y gwaith hwnnw hefyd.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y diweddariad atom erbyn dydd Gwener 3 Tachwedd 2023, os yw hynny'n bosibl.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Papur 2



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

20 Hydref 2023

Annwyl Jane,

**Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin a darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Diolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 5 Hydref mewn perthynas â'n gwaith ar ddarparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin a darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym.

**Ffoaduriaid o Wcráin**

Yn eich tystiolaeth, gwnaethoch gadarnhau bod y contract gyda'r cwmni 'Corporate Travel Management' bellach wedi dod i ben a'ch bod wedi trosglwyddo i ddarparwr llety arall, sef 'Calder World of Travel'. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro a yw'r cwmni hwn hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU i ddarparu llety i ffoaduriaid a beth yw hyd a gwerth disgwyliedig y contract hwn.

Clywsom fod nifer y rhai sy'n cyrraedd wedi arafu, a chroesawn yr ymdrechion a wnaed i gadw mewn cysylltiad â'r rhai sydd â fisa ond nad ydynt wedi cyrraedd. Nodwn fod ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 10 Hydref yn awgrymu bod 7,136 o ffoaduriaid o Wcráin wedi cyrraedd Cymru drwy gynlluniau Cartrefi i Wcráin ac Uwch-Noddwr Llywodraeth Cymru. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o ffoaduriaid o Wcráin sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd ac unrhyw wybodaeth bellach ynghylch pa fesurau sydd ar waith i gasglu'r wybodaeth hon, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn cofnodi nifer y rhai sy'n gadael Cymru a'u rhesymau dros wneud hynny.

Yn eich tystiolaeth, gwnaethoch ddarparu rhai manylion am sut y gwariwyd y £40 miliwn a ddyrannwyd yn 2023-24 i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin a hefyd ar gyfer beth y defnyddiwyd yr £8.2 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu dadansoddiad pellach o sut y gweinyddwyd y £40 miliwn (gan gynnwys diweddariad ar gost y Contract Rheoli Teithio Corfforaethol).

Ers darparu tystiolaeth, roedd yn destun pryder inni ddysgu bod y dyraniad ar gyfer rhaglen Wcráin wedi gostwng £4.3 miliwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y gostyngiad hwn, sut y bydd yn effeithio ar y cymorth sydd ar gael i ffoaduriaid o Wcráin adadansoddiad o sut y dyrannwyd yr £8.2 miliwn, gan gynnwys eglurhad bod y swm hwn yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol.

Yn ogystal, yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gytuno i ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gais yr Aelodau:

- adborth ar gynnydd mewn perthynas â throi lleoliadau priodol yn drefniadau llety masnachol, os na fydd taliadau diolch ar gael ym mlwyddyn 3;
- rhagor o fanylion am waith dadansoddi y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ar y rhesymau dros wrthod llety;
- manylion cyfanswm y costau a dalwyd i CTM, ar ôl i'r holl ffigurau gael eu cysoni;
- manylion gwaith parhaus Llywodraeth Cymru i ddadansoddi datganiadau blynyddol ar y grant a ddarperir i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu cartrefi (gan gynnwys llety modiwlaidd) ar gyfer y bobl sydd angen tai.

### Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Yn eich tystiolaeth, gwnaethoch nodi y byddech yn trafod natur drawsbynciol rhai o'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Yn benodol, y rhaglen beilot i ddarparu gwasanaeth cynghori annibynnol y gellir ymddiried ynddo ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i'r rhai sy'n ceisio datblygu safleoedd preifat. Ceir ymrwymiad hefyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i adolygu'r polisi ariannu presennol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac asesu ei effeithiolrwydd. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad ar y trafodaethau hynny a'r cynnydd cyfredol ar y camau gweithredu penodol a nodwyd.

Byddem hefyd yn annog, fel rhan o'r trafodaethau hynny gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd, fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fynd i'r afael â'r rhagfarn gynhenid ymddangosiadol neu ganfyddedig sydd gan gynllunwyr awdurdodau lleol ac arolygwyr cynllunio yn erbyn ceisiadau gan gymunedau sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gyfer safleoedd preifat. Roedd hyn yn rhywbeth a glywodd y Pwyllgor yn uniongyrchol gan unigolion yn y gymuned, sy'n aml yn mynd i drafferth fawr i oresgyn rhwystrau cynllunio.

Roedd yn ofid mawr i ni glywed nad yw un awdurdod wedi cyflwyno ei Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr eto, a bod y broses adolygu ar gyfer yr asesiadau sy'n weddill yn dal i fynd rhagddi. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn diwedd y flwyddyn ar gynnydd y broses adolygu, ac ar gyflwyno'r asesiadau o anghenion llety terfynol.

Gwnaethoch ddweud wrthym, mewn perthynas â safleoedd tramwy, fod angen cydweithredu rhwng awdurdodau a'ch bod wedi:

> *cael yr awdurdodau i feddwl am gyfarfod yn rhanbarthol. Mewn gwirionedd, awgrymodd yr aelod cabinet arweiniol dros dai mewn cyfarfod diweddar y dylem fod yn edrych ar hynny fel cyfle rhanbarthol hefyd, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd tramwy. Felly, rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld newid.*

Byddwch yn cofio i ni argymell y "dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac awdurdodau lleol unigol i ddatblygu rhwydwaith o ddarpariaeth ddarfodol, a sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau cynnydd". Mae yna hefyd ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i "[g]reu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy er mwyn hwyluso bywydau teithwyr, gan ystyried mannau aros dros dro wedi'u negodi, fel y bo'n briodol." Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn diwedd y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r cam gweithredu penodol hwn.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch nodi eich bod wedi cynnal cyfarfodydd ag arweinwyr cydraddoldeb cabinet Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer safleoedd newydd a gwelliannau i safleoedd. Rydych chi'n nodi bod hyn yn gofyn am 'ymgysylltu cymunedol' ac y gall 'arwain at heriau i benderfyniadau'. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am y rôl weithredol y mae Llywodraeth Cymru yn ei chymryd i hyrwyddo ymgysylltiad ystyrlon, yn enwedig gan fod gennym Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol erbyn hyn, gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymuned sefydlog pan wneir cynigion ar gyfer datblygu safleoedd.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon